**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD LLUN, 20 TACHWEDD 2023**

**Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, A.Thomas, A.Jarrett, R.Crowhurst, S.Curran, J.Merrifield, R.Bowen, A.Thomas, P.Chivers a/ac J.Woodman-Ralph

**Cadeirydd Craffu:** Cynghorwyr P Rogers

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganodd yr Aelod canlynol fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd N Jenkins – Parthed Eitem 6 – Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion – Gan ei bod yn llywodraethwr yn ysgol Maes Y Coed.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

6. **RHAGLEN STRATEGOL AR GYFER GWELLA YSGOLION**

**Penderfyniad:**

Bod caniatâd yn cael ei roi i swyddogion geisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud cais am amrywiad o Raglen Amlinellol Strategol (RhAS) Bandiau'r cyngor i gael gwared ar gynllun Cwm Tawe a chynnwys adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Godre'r-graig, ehangiad i ysgol arbennig Maes y Coed ac adnewyddu hen adeilad y Gwasanaeth Adnoddau Addysg a Dysgu ym Mhort Talbot yn llwyr a bod RhAS Band C y cyngor yn cael ei diwygio i gynnwys ysgol arbennig newydd fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu i swyddogion wneud cynnydd wrth baratoi'r achosion busnes os bydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r diwygiadau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar y cam hwn. Fodd bynnag, os sicrheir cymeradwyaeth yna wrth i gynlluniau gael eu datblygu, gall fod angen mynd trwy brosesau strategol a fyddai'n cynnwys ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid

7. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**